

Adran Tai ac Eiddo Housing and Property Department

Pennaeth Adran – Carys Fôn Williams
Head of Department – Carys Fôn Williams

Gofynnwch am/Ask for:



@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:



11/07/2024

Annwyl Clerc,

Gan fod y Cyngor wedi derbyn ymholiadau diweddar ynglŷn â datblygiad newydd Dôl Sadler, roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i eich diweddarau ar y sefyllfa bresennol. Fel y gwychoch, ein bwriad gwreiddiol ar gyfer y datblygiad oedd penodi tri swyddog i weithio o swyddfa Dôl Sadler i ddarparu cymorth i unigolion sydd angen lefel benodol o anghenion cymorth. Hysbysebwyd y swyddi hyn ar bedwar achlysur gwahanol, ond yn anffodus ni dderbyniwyd digon o geisiadau i staffio'r rota a nodwyd. Felly, penderfynwyd cynnig llety yn Dôl Sadler i unigolion ag anghenion cymorth llawer is, yr oedd rhai ohonynt eisoes wedi cael cymorth mewn hosteli eraill. O ganlyniad, ni fyddai angen bellach i ddarparu'r model cymorth gwreiddiol a fyddai'n gofyn am bresenoldeb staffio 24 awr ar y safle. I'r perwyl hwn, rhagwelir y bydd y Cyngor yn parhau gyda'r trefniant newydd wrth symud ymlaen.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod pob un ond un o'r unedau yn cael eu defnyddio a bod yr adborth gan breswylwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol gyda phawb yn teimlo eu bod yn gallu galw'r safle yn gartref newydd. Gallaf adrodd hefyd nad yw'r Cyngor wedi derbyn wybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau penodol yn dilyn i drigolion symud i mewn. Mae staff o'r Adran Tai ac Eiddo wedi bod ar y safle yn ystod y dydd a gyda phresenoldeb yn ogystal yn ystod y rhan fwyaf o nosweithiau. Mae'r presenoldeb gyda'r nos ac ar y penwythnos wedi bod yn bennaf er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau cychwynnol sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd yn cael eu trin yn brydlon. Hefyd mae teledu cylch cyfyng llawn (CCTV) ar y safle a threfniadau dynodedig y tu allan i oriau gwaith i gynorthwyo gyda materion os oes angen.

Gobeithiaf yn eich rolau y byddwch yn parhau i weithio gyda Chyngor Gwynedd i gefnogi cynllun Dôl Sadler ac i hyrwyddo manteision ac agweddau cadarnhaol y datblygiad tai arloesol hwn yn Nolgellau.

Yn gywir,

Craig ab Iago

Aelod Cabinet Tai

Adran Tai ac Eiddo
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

